Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Mick.Antoniw@cynulliad.cymru

17 Rhagfyr 2019

Annwyl Mick,

Rheoliadau'r DU sy'n ymdrin ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Diolch ichi am eich llythyr yn gofyn am yr effaith bosibl y gallai Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol y Cynulliad. Darparwyd yr wybodaeth honno yn fy llythyr dyddiedig 11 Tachwedd at Glerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ond dyma gopi o'r wybodaeth honno.

Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Roedd Rheoliadau Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol gydnabod sefydliadau cynhyrchwyr a chyhoeddi rhestr o sefydliadau cynhyrchwyr cydnabyddedig yn ogystal â chaniatáu i sefydliadau cynhyrchwyr drefnu bod sefydliadau allanol yn darparu unrhyw un neu rai o'u gweithgareddau mewn sectorau penodol (Rheoliad 1299/2007 a Rheoliad 2016/232). Yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar gyfwerthedd cyn y ceir mewnforio unrhyw wyau i'r DU (Rheoliad 589/2008). Hefyd, mae swyddogaethau wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran pennu ad-daliadau allforio a gweithredu'r system ad-daliadau allforio ar gyfer cynnyrch amaethyddol (Rheoliad 1370/2013) ac o ran safonau marchnata cynhyrchion amaethyddol. Effaith y diwygiadau yw trosglwyddo pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu telerau ac amodau cysylltiadau contractiol yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth. Mae pŵer wedi'i drosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd mewn perthynas â'r system ad-daliadau allforio ar gyfer cynhyrchion amaethyddol. O ran Rheoliadau 1370/2013 a Rheoliad 510/2014, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol swyddogaethau sy'n gysylltiedig â phennu ad-daliadau allforio a gweithredu'r system ad-daliadau allforio ar gyfer cynnyrch amaethyddol.

O ran Rheoliad 511/2012, mae Erthygl 149(2) (c) o Reoliad yr UE 1308/2013 yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer Rheoliad 511/2012. Mae Erthygl 149(2) (c) yn ymwneud â chysylltiadau contractiol a negodi yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth. Mae Erthygl 2 o Reoliad 511/2012 yn ymwneud â hysbysiadau am faint o laeth amrwd sydd o dan sylw wrth negodi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

contractau. Bellach, bydd yn rhaid cyflwyno'r hysbysiadau hynny i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Mae Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol a deddfwriaethol eu natur i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn arferadwy ganddo ef yn unig. Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y byddai gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Mae'n bosibl y byddai rhoi swyddogaeth weinyddol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn golygu y byddai paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Mae'r paragraff hwn yn darparu na chaiff darpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad ddileu nac addasu, na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ddileu neu i addasu, unrhyw un o swyddogaethau awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig yng Nghymru, oni fydd Gweinidog (priodol) y DU yn cydsynio i'r ddarpariaeth. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, byddai gofyn cael cydsyniad Gweinidog priodol y Goron.

Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 i Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) 2014 ac i Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015 yn cael unrhyw effaith o ran trosglwyddo unrhyw swyddogaethau.

Mae'r Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) 2014 yn ymdrin â phob agwedd ar ddefnydd cyfyngedig o ficro-organeddau a addaswyd yn enetig ac â'r agweddau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl ar ddefnydd cyfyngedig o GMOau mwy (er enghraifft, anifeiliaid a phlanhigion wedi'u haddasu'n enetig). Gan weithredu ar y cyd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Defra yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru a Lloegr sy'n gyfrifol am Reoliadau 2014. Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo i swyddogion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Defra. Er nad ydynt yn rhan o'r awdurdod cymwys, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys wrth drafod unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â defnydd cyfyngedig o GMO yng Nghymru. Mae'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn dileu cyfeiriad diangen ac yn diwygio gofynion i awdurdod cymwys hysbysu Gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac adrodd i'r Undeb Ewropeaidd. Ni fydd y gofynion hynny'n briodol bellach unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE.

Bwriad Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015 yw atal damweiniau mawr diwydiannol ar y tir a chyfyngu ar eu canlyniadau i bobl a'r amgylchedd. Mae'r Rheoliadau'n gosod rheolau i atal damweiniau mawr a allai ddigwydd yn sgil gweithgareddau diwydiannol penodol, sy'n cynnwys cynhyrchu, defnyddio neu storio sylweddau peryglus hyd at neu uwchben trothwyon penodol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod rheolau ar gyfyngu ar ganlyniadau damweiniau. Mae'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn ymwneud â darparu gwybodaeth, â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth ac i gynghori Aelod Wladwriaethau. Maent yn ymwneud hefyd â rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd ac â'r hyn sydd i'w gynnwys mewn cynlluniau allanol at argyfyngau. Ni fydd hynny'n briodol bellach unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn mewnosod diffiniad newydd o 'sefydliad rhyngwladol' er mwyn sicrhau cysondeb o dan y drefn ddomestig. Mae'r swyddogaethau o ran darparu gwybodaeth yn cael eu rhoi i'r awdurdod cymwys a fydd, o dan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015, yn

golygu, o ran sefydliad yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu ar y cyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Nid yw Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nac ychwaith ar allu Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru."

Rwy'n nodi eich cais am ddiweddariad ar Orchymyn S109 ac rwy'n hapus i chi ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 30 Ionawr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd